Safon Gwasanaeth Rheolaeth Tenantiaeth Newydd

Ein nod: Nod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw darparu gwasanaeth i gefnogi a helpu tenantiaid newydd y Gymdeithas i gynnal eu tenantiaeth yn unol â'r cytundeb tenantiaeth.

Byddwn yn:

Darparu Cefnogaeth i Denantiaid Newydd

- Trefnu i aelod o Dîm Gwasanaethau Bro i ymweld â phob tenant newydd yn eu cartrefi o fewn 21 diwrnod iddynt gychwyn eu tenantiaeth
- Dangos parch i chi a'ch cartref bob amser, a dangos cerdyn adnabod fel y gallwch fod yn sicr o bwy ydym ni

Bod yn sicr ynglyn â'ch hawliau a chyfrifoldebau

- Darparu llawlyfr tenantiaid yn amlinellu sut i gael mynediad i wasanaethau y mae'r cwmni yn eu darparu ac egluro i chi beth yw eich cyfrifoldebau a beth yw cyfrifoldebau'r cwmni
- Eich cynghori ar eich goblygiadau i fod yn gymydog da drwy gadw eich cartref a'ch gardd yn daclus, ynghyd â rheoli swn, anifeiliaid ac ymddygiad aelodau eraill ac ymwelwyr i'ch eiddo ac egluro sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw dor-cytundeb tenantiaeth

Darparu cefnogaeth pan fydd hyn yn bosib

- Gwneud asesiad o unrhyw gefnogaeth y bydd ei angen arnoch a bod ar gael i ddarparu cyngor a gwybodaeth i'ch helpu i gynnal eich tenantiaeth
- Eich cynghori ar ba staff Gwasanaethau Bro sydd yn eich ardal gan gynnwys y Warden Cymunedol a sut i gysylltu gyda nhw

Eich helpu i ddod yn rhan o'r Gymdeithas

- Eich cynghori ar sut i ddod yn rhan o gymdeithasau/digwyddiadau preswylwyr yn eich ardal
- Trefnu ymweliadau eraill ar ôl tri, chwech a naw mis i sicrhau bod y denantiaeth yn cael ei chynnal yn dderbyniol cyn cynnig tenantiaeth nad yw'n fyrddaliad penodedig

Pan nad ydym ni'n ei chael hi'n iawn

- Rydym yn anelu i wneud popeth yn gywir a chywiro ein camgymeriadau

- Os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn gallwch roi gwybod i ni tros y ffôn, trwy llythyr, e-bost neu yn wyneb yn wyneb yn un o'n swyddfeydd.

Adolygu'r Safon Gwasanaeth

- Byddwn yn adolygu'r safonau gwasanaeth yma 12 mis ar ôl eu sefydlu, ac wedi hynny bydd adolygiad pob 3 mlynedd